Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Weithredu Deddfwriaeth a Pholisïau Llywodraeth Agored yn ystod 2024

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Crynodeb** | **4** |
| **Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth** | **5** |
| **Categori’r Ceisydd** | **10** |
| **Prydlondeb Ymatebion** | **11** |
| **Canlyniadau Ceisiadau a Gwblhawyd** | **12** |
| **Defnyddio Esemptiadau ac Eithriadau** | **14** |
| **Adolygiadau Mewnol** | **16** |
| **Prydlondeb Adolygiadau Mewnol** | **18** |
| **Apeliadau i’r Comisiynydd Gwybodaeth** | **18** |
| **Apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth)** | **18** |
| **Atodiad A: Defnyddio Esemptiadau ac Eithriadau yn ystod 2024** | **19** |

**Cyflwyniad:**

Dyma'r pedwerydd adroddiad ar bymtheg y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar weithredu deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth agored. Mae hwn yn adroddiad ôl-weithredol sy'n disgrifio ein profiadau yn ystod 2024.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â delio â cheisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA2018) / Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU). Mae'r ystadegau'n ymdrin â cheisiadau a gofnodwyd gan Uned Hawl i Wybodaeth Llywodraeth Cymru yn unig ac nid ydynt yn cynnwys ceisiadau "arferol" a gwybodaeth a rennir yn ystod y gwaith o ddydd i ddydd. O ganlyniad, dim ond rhoi cipolwg ar brofiadau a pherfformiad Llywodraeth Cymru y mae'r data.

Oni nodir yn wahanol, casglwyd y data a gyflwynir yn y tablau a'r graffiau yn yr adroddiad hwn o System Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth Llywodraeth Cymru ar 3 Gorffennaf 2025. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i un lle degol mewn meysydd a allai roi'r argraff bod mân anghysondebau rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd gan awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**Crynodeb:**

Yn 2024:

- Cafodd Llywodraeth Cymru 1,121 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi.

- Bu gostyngiad o 16.5% yng nghyfanswm nifer y ceisiadau a gafwyd o'i gymharu â 2023 (i lawr o 1,342 yn 2023). Serch hynny, yn 2024, cafwyd y trydydd nifer uchaf o geisiadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn un flwyddyn galendr ers i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol gael eu cychwyn ar 1 Ionawr 2005.

- O'r 1,121 o geisiadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau[1] 1,115 (99.5%) ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

- O'r 1,115 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 976 (87.5%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 997 (89.4%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[2].

- O'r 1,115 o geisiadau a gwblhawyd, darparwyd yr holl wybodaeth neu rywfaint ohoni wrth ymateb i 742 (66.5%).

- Yr esemptiadau / eithriadau a gymhwyswyd amlaf oedd: adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000: Gwybodaeth bersonol (25.5%); rheoliad 13 o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: Data personol trydydd partïon (11.0%); a pharagraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 2018: Diogelu hawliau pobl eraill (10.0%).

- Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 41 o gwynion (3.7% o'r ceisiadau a gafwyd) a oedd yn ymwneud â'r ffordd yr ymdriniwyd â cheisiadau am wybodaeth.

- O'r 41 o adolygiadau mewnol, cafodd y gŵyn ei chadarnhau mewn 7 achos, ei chadarnhau'n rhannol mewn 6 achos, a chafodd y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau mewn 28 o achosion.

- Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 4 o gwynion[3] (0.4% o'r ceisiadau) a rhoddodd Hysbysiad Penderfynu mewn perthynas â 3 ohonynt.

- Nid oedd yr un Hysbysiad Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

---

[1] Cais am wybodaeth wedi'i chofnodi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ateb yw cais a gwblhawyd.

[2] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

[3] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol sydd wedi arwain at Hysbysiad Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu sydd wedi'i ddatrys fel arall gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:**

Cafodd Llywodraeth Cymru 1,121 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi yn 2024. Ers i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gael ei chychwyn ar 1 Ionawr 2005, mae nifer y ceisiadau a geir bob blwyddyn wedi codi a gostwng. Roedd 16.5% o ostyngiad yn nifer y ceisiadau a gafwyd yn 2024 o'i gymharu â 2023. Mae'r cyfanswm o 1,121 o geisiadau a gafwyd yn drydydd nifer uchaf o geisiadau a gafodd Llywodraeth Cymru mewn blwyddyn galendr ers i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol gael eu cychwyn ar 1 Ionawr 2005.


Mae Tabl 1 a Ffigur 1 isod yn nodi cyfanswm blynyddol y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafodd Llywodraeth Cymru ers 2005.

Mae Tabl 2 a Ffigur 2 yn cymharu nifer y ceisiadau a gafwyd o fis i fis yn 2023 a 2024.

Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd yn 2005-2024

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y ceisiadau a gafwyd | Gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall (%) |
|---|---:|---:|
| 2005 | 898 | - |
| 2006 | 677 | -24.6% |
| 2007 | 574 | -15.2% |
| 2008 | 638 | 11.1% |
| 2009 | 860 | 34.8% |
| 2010 | 813 | -5.5% |
| 2011 | 853 | 4.9% |
| 2012 | 992 | 16.3% |
| 2013 | 1,102 | 11.1% |
| 2014 | 914 | -17.1% |
| 2015 | 899 | -1.6% |
| 2016 | 885 | -1.6% |
| 2017 | 787 | -11.1% |
| 2018 | 934 | 18.7% |
| 2019 | 734 | -21.4% |
| 2020 | 984 | 34.1% |
| 2021 | 1,131 | 14.9% |
| 2022 | 1,031 | -8.8% |
| 2023 | 1,342 | 30.2% |
| 2024 | 1,121 | -16.5% |


Ffigur 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd yn 2005-2024



Tabl 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd bob mis: 2023 a 2024

| Mis | 2023 | % o'r Cyfanswm | 2024 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 93 | 6.9% | 110 | 9.8% |
| Chwefror | 104 | 7.7% | 129 | 11.5% |
| Mawrth | 136 | 10.1% | 112 | 10.0% |
| Ebrill | 80 | 6.0% | 98 | 8.7% |
| Mai | 104 | 7.7% | 108 | 9.6% |
| Mehefin | 117 | 8.7% | 65 | 5.8% |
| Gorffennaf | 113 | 8.4% | 99 | 8.8% |
| Awst | 98 | 7.3% | 79 | 7.0% |
| Medi | 197 | 14.7% | 87 | 7.8% |
| Hydref | 120 | 8.9% | 78 | 7.0% |
| Tachwedd | 117 | 8.7% | 85 | 7.6% |
| Rhagfyr | 63 | 4.7% | 71 | 6.3% |
| **Cyfanswm** | **1,342** | **100%** | **1,121** | **100%** |

Ffigur 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafwyd bob mis: 2023 a 2024




Yn Nhabl 3, ceir dadansoddiad yn ôl portffolio o nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a gafodd Llywodraeth Cymru yn 2024. Gan fod newid wedi bod yn strwythur y sefydliad ym mis Ebrill 2024, mae dwy set o ffigurau. Mae'r set gyntaf (Tabl 3a a Ffigur 3a) yn dangos ceisiadau a gafwyd cyn mis Ebrill 2024; mae'r ail set (Tabl 3b a Ffigur 3b) yn dangos ceisiadau yr ymdriniwyd â nhw ar ôl yr ad-drefnu.

Tabl 3a:  Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2024 (cyn y newid yn y sefydliad)

| Grŵp / Maes Cyfarwyddwr Cyffredinol | Nifer y Ceisiadau yn 2024 | % y Ceisiadau |
|---|---|---|
| Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 114 | 41.0% |
| Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu | 69 | 24.8% |
| Y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg | 26 | 9.4% |
| Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 | 11.2% |
| Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad | 29 | 10.4% |
| Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog | 9 | 3.2% |
| Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **278** | **100%** |


Ffigur 3a: Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2024 (cyn y newid yn y sefydliad)



Tabl 3b: Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2024 (ar ôl y newid yn y sefydliad)

| Grŵp / Maes Cyfarwyddwr Cyffredinol | Nifer y Ceisiadau yn 2024 | % y Ceisiadau |
|---|---|---|
| Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau | 172 | 20.4% |
| Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg | 112 | 13.3% |
| Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth | 222 | 26.3% |
| Grŵp Gwasanaethau'r Prif Weinidog | 56 | 6.6% |
| Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar | 115 | 13.6% |
| Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 166 | 19.7% |
| **Cyfanswm** | **843** | **100%** |

Ffigur 3b: Nifer y ceisiadau a gafwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2024 (ar ôl y newid yn y sefydliad)




**Categori'r Ceisydd:**

Dros y flwyddyn, ceisiadau gan Aelodau'r Senedd, y cyfryngau, staff ac Aelodau Seneddol oedd i gyfrif am 113 (10.1%) o'r 1,121 o geisiadau a gafwyd. Cafodd y 1,008 o geisiadau eraill (sy'n cyfateb i 89.9% o'r holl geisiadau) eu cofnodi o dan y categori 'Eraill'.

Tabl 4: Ceisiadau a gafwyd gan bob math o geisydd yn ystod pob chwarter yn 2024

| | Eraill | Aelodau o'r Senedd | Y cyfryngau | Staff | Aelodau Seneddol |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 329 | 8 | 13 | 1 | 0 |
| Chwarter 2 | 244 | 10 | 14 | 2 | 1 |
| Chwarter 3 | 234 | 16 | 12 | 3 | 0 |
| Chwarter 4 | 201 | 12 | 20 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm 2024** | **1,008** | **46** | **59** | **7** | **1** |

Ffigur 4: Ceisiadau a gafwyd gan bob math o geisydd yn ystod pob chwarter yn 2024



**Prydlondeb Ymatebion:**

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymateb fel arfer i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith i'w derbyn, heblaw am eithriadau cyfyngedig. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn caniatáu estyniad rhesymol i'r terfyn amser o 20 diwrnod gwaith wrth ystyried esemptiad sydd wedi bod yn destun prawf budd y cyhoedd, ac mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu estyniad o uchafswm o 20 diwrnod gwaith arall os yw'r cais yn gymhleth ac yn swmpus.

O'r 1,121 o geisiadau, roedd 1,115 wedi'u cwblhau (99.5%) ar adeg llunio'r adroddiad hwn. O'r 1,115 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 976 (87.5%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 997 (89.4%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[4].

Mae Tabl 5 isod yn nodi canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol gan Lywodraeth Cymru ers 2005[5].

Tabl 5: Canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol 2005-2024

| Blwyddyn | % a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol |
|---|---|
| 2005 | 63.3% |
| 2006 | 64.2% |
| 2007 | 81.0% |
| 2008 | 86.2% |
| 2009 | 82.1% |
| 2010 | 74.6% |
| 2011 | 83.0% |
| 2012 | 89.0% |
| 2013 | 90.1% |
| 2014 | 91.0% |
| 2015 | 86.6% |
| 2016 | 84.7% |
| 2017 | 83.5% |
| 2018 | 89.7% |
| 2019 | 89.2% |
| 2020 | 79.8% |
| 2021 | 83.2% |
| 2022 | 86.8% |
| 2023 | 85.2% |
| 2024 | 89.4% |

[4] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

[5] Mae'r ffigurau ar gyfer 2005-2008 ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau cynharach oherwydd bod ceisiadau agored wedi'u cwblhau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.


**Canlyniadau Ceisiadau a Gwblhawyd:**

Yn Nhablau 6a a 6b, ac yn Ffigurau 5a a 5b, dangosir nifer y ceisiadau a gwblhawyd a gafodd Llywodraeth Cymru yn ystod 2023 a 2024 yn ôl categori cwblhau.

Tabl 6a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2023 a 2024

| Categori Cwblhau | 2023 | % o'r Cyfanswm | 2024 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Darparu'r holl wybodaeth | 733 | 54.6% | 560 | 50.2% |
| Darparu peth o'r wybodaeth | 170 | 12.7% | 182 | 16.3% |
| Dim gwybodaeth wedi'i darparu[6] | 141 | 10.5% | 112 | 10.0% |
| Dim gwybodaeth yn cael ei chadw | 291 | 21.7% | 254 | 22.8% |
| Tynnwyd yn ôl | 7 | 0.5% | 7 | 0.6% |
| **Cyfanswm** | **1,342** | **100%** | **1,115** | **100%** |

Ffigur 5a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2024





[6] Mae'r categori 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' yn cynnwys gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu ragor o esemptiadau, a'r ceisiadau hynny a wrthodwyd am eu bod yn fwy na'r terfyn priodol, ac am eu bod yn geisiadau blinderus neu geisiadau sydd wedi'u hailadrodd.

Tabl 6b: Nifer y ceisiadau 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' wedi'u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2023 a 2024

| Categori Cwblhau Dim Gwybodaeth wedi'i Darparu | 2023 | % o'r Cyfanswm | 2024 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| S12 Mwy na'r Terfyn Priodol | 47 | 33.3% | 31 | 27.7% |
| S14 Blinderus | 1 | 0.7% | 0 | 0.0% |
| S14 Wedi'i ailadrodd | 1 | 0.7% | 2 | 1.8% |
| Yr wybodaeth yn perthyn i gategori esemptio arall[7] | 92 | 65.2% | 79 | 70.5% |
| **Cyfanswm** | **141** | **100%** | **112** | **100%** |

Ffigur 5b: Nifer y ceisiadau 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' wedi'u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2024




[7]Mae hyn yn cynnwys ceisiadau lle cafodd yr wybodaeth ei dal yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu ragor o esemptiadau/eithriadau a restrir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018 / GDPR y DU ar wahân i a12 'cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn priodol' ac a14 'blinderus neu wedi'i ailadrodd'.

**Defnyddio Esemptiadau ac Eithriadau:**

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y gall awdurdod cyhoeddus wrthod darparu gwybodaeth y gofynnir amdani sy'n cael ei dal ganddo:

- mae'r cais yn cael ei ystyried yn un blinderus neu'n un sydd wedi'i ailadrodd;
- byddai cost cydymffurfio yn fwy na'r 'terfyn priodol' (£600);
- ni thalwyd y ffi;
- mae'r wybodaeth yn perthyn i un neu ragor o'r categorïau esemptio/eithrio a restrir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018 / GDPR y DU.

Mae Tabl 7 a Ffigur 6 yn rhoi manylion yr esemptiadau a'r eithriadau a gafodd eu cymhwyso o leiaf ddeg gwaith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024. Gellir gweld rhestr lawn o'r esemptiadau a'r eithriadau yn Atodiad A (nid yw'r ffigurau yn Nhabl 7 yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwyswyd esemptiad a/neu eithriad mewn perthynas â hwy gan ei bod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn perthynas â cheisiadau unigol).

Pan fo Llywodraeth Cymru wedi defnyddio esemptiadau a/neu eithriadau sydd ar gael i atal gwybodaeth, mae esboniadau llawn wedi'u darparu a'u cyhoeddi yn y Cofnod Datgeliadau y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/ymatebion-rhyddid-gwybodaeth


Yr eithriadau a gymhwyswyd amlaf oedd diogelu gwybodaeth bersonol (adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000); diogelu data personol trydydd partïon (rheoliad 13 o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004); a diogelu hawliau pobl eraill (paragraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 2018).

Tabl 7: Defnyddio esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2024

| Deddf-Esemptiad[8] | 2024 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| DPA2018, paragraff 16 o Atodlen 2 | 29 | 10.0% |
| DPA2018, paragraff 9 o Atodlen 3 | 11 | 3.8% |
| EIR, rheoliad 13 | 32 | 11.0% |
| FOIA, adran 21 | 28 | 9.7% |
| FOIA, adran 22 | 24 | 8.3% |
| FOIA, adran 36 | 10 | 3.4% |
| FOIA, adran 40 | 74 | 25.5% |
| FOIA, adran 43 | 23 | 7.9% |
| Pob esemptiad arall | 59 | 20.3% |
| **Cyfanswm** | **290** | **100%** |

[8]Ceir disgrifiad o'r mater y mae pob esemptiad yn gymwys iddo ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn: https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-information-regulations/

Ffigur 6: Defnyddio esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2024



**Adolygiadau Mewnol:**

Gall ceiswyr ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol: i) os nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad i atal yr holl wybodaeth y gofynnir amdani neu rywfaint ohoni; ii) os nad ymdriniwyd â'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith; neu iii) os ydynt o'r farn y codwyd ffi ar gam.


Cafodd Llywodraeth Cymru 41 o gwynion yn 2024 sy'n cyfateb i 3.7% o'r ceisiadau. Roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â 2023 o 21.2%.

Tabl 8: Nifer y Cwynion (2005-2024)

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y cwynion |
|---|---|
| 2005 | 14 |
| 2006 | 27 |
| 2007 | 22 |
| 2008 | 21 |
| 2009 | 16 |
| 2010 | 33 |
| 2011 | 33 |
| 2012 | 45 |
| 2013 | 51 |
| 2014 | 41 |
| 2015 | 40 |
| 2016 | 59 |
| 2017 | 56 |
| 2018 | 81 |
| 2019 | 52 |
| 2020 | 48 |
| 2021 | 44 |
| 2022 | 56 |
| 2023 | 52 |
| 2024 | 41 |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

Ffigur 7: Nifer y Cwynion (2005-2024)




Tabl 9: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2024

| | Nifer | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cadarnhau'r gŵyn | 7 | 17.1% |
| Cadarnhau'r gŵyn yn rhannol | 6 | 14.6% |
| Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol | 28 | 68.3% |
| **Cyfanswm** | **41** | **100%** |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

O'r 41 o adolygiadau mewnol, cafodd y gŵyn ei chadarnhau mewn 7 achos, ei chadarnhau'n rhannol mewn 6 achos, a chafodd y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau mewn 28 o achosion.

Ffigur 8: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2024



**Prydlondeb Adolygiadau Mewnol:**

Nid oes terfyn amser statudol ar gyfer cwblhau adolygiad mewnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau sy'n datgan y dylid cwblhau adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ac y gellir ymestyn y terfyn amser ar gyfer cwblhau mewn achosion eithriadol i 40 diwrnod gwaith.

O'r 41 o adolygiadau mewnol a gwblhawyd, cafodd 31 (75.6%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith, cafodd 5 (12.2%) eu cwblhau o fewn 21 i 40 diwrnod gwaith, a chymerodd 5 (12.2%) fwy na 40 diwrnod gwaith i'w cwblhau.

**Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth:**

Os nad yw ceisydd yn fodlon ag ymateb Llywodraeth Cymru, gall gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef rheoleiddiwr annibynnol awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas ag ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Ar ôl derbyn cwyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn penderfynu a ddylid ymchwilio ac mae'n bosibl y bydd yn cyhoeddi Hysbysiad Penderfynu wedi hynny. Hysbysiad Penderfynu yw barn derfynol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch a yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, a pha gamau adferol (os o gwbl) y mae angen eu cymryd. Ni fydd pob ymchwiliad yn arwain at Hysbysiad Penderfynu. Mae rhai ymchwiliadau'n cael eu datrys yn anffurfiol.

Yn 2024, ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 4 cwyn[9] (0.4% o'r ceisiadau). O'r 4 ymchwiliad a gwblhawyd, cyhoeddwy 3 hysbysiad penderfynu. Nid oedd angen i Lywodraeth Cymru weithredu ymhellach ar unrhyw un o'r hysbysiadau penderfynu.

**Apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth):**

Mae Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth) yn gwrando apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Penderfynu a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn 2024, nid oedd yr un Hysbysiad Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[9] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol sydd wedi arwain at Hysbysiad Penderfynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu sydd wedi'i ddatrys fel arall gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Atodiad A: Defnyddio esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2024**

Fel y nodir yn yr adroddiad, nid yw'r ffigurau isod yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwyswyd esemptiad a/neu eithriad mewn perthynas â hwy gan ei bod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn perthynas â cheisiadau unigol.

| **Deddf – Esemptiad** | **nifer** | **%** |
|---|---|---|
| DPA2018, paragraff 16 o Atodlen 2 – Diogelu hawliau pobl eraill | 29 | 10.0% |
| DPA2018, paragraff 19 o Atodlen 2 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 7 | 2.4% |
| DPA2018, paragraff 9 o Atodlen 3 – Data a broseswyd gan lys | 11 | 3.8% |
| DPA2018, paragraff 11 o Atodlen 3 – Data Gwaith Cymdeithasol | 2 | 0.7% |
| EIR, rheoliad 12(4)(b) – Y cais yn amlwg yn afresymol | 1 | 0.3% |
| EIR, rheoliad 12(4)(c) – Y cais wedi cael ei lunio mewn modd rhy gyffredinol | 3 | 1.0% |
| EIR, rheoliad 12(4)(e) – Deunydd cyfathrebu mewnol | 2 | 0.7% |
| EIR, rheoliad 12(5)(b) – Cwrs cyfiawnder | 2 | 0.7% |
| EIR, rheoliad 12(5)(c) – Hawliau eiddo deallusol | 1 | 0.3% |
| EIR, rheoliad 12(5)(e) – Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle mae cyfrinachedd yn cael ei ddarparu gan y gyfraith i ddiogelu buddiant masnachol dilys | 2 | 0.7% |
| EIR, rheoliad 12(5)(f) – Buddiannau'r person a ddarparodd yr wybodaeth | 2 | 0.7% |
| EIR, rheoliad 13 – Data personol trydydd partïon | 32 | 11.0% |
| FOIA, adran 21 – Gwybodaeth sydd ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill | 28 | 9.7% |
| FOIA, adran 22 – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol | 24 | 8.3% |
| FOIA, adran 26 – Amddiffyn | 1 | 0.3% |
| FOIA, adran 27 – Cysylltiadau rhyngwladol | 2 | 0.7% |
| FOIA, adran 28 – Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig | 1 | 0.3% |
| FOIA, adran 31 – Gorfodi'r gyfraith | 3 | 1.0% |
| FOIA, adran 32 – Cofnodion llys | 4 | 1.4% |
| FOIA, adran 33 – Swyddogaethau archwilio | 1 | 0.3% |
| FOIA, adran 35 – Ffurfio polisi'r llywodraeth | 9 | 3.1% |
| FOIA, adran 36 – Cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol | 10 | 3.4% |
| FOIA, adran 37 – Cyfathrebiadau â'i Mawrhydi, etc. ac anrhydeddau | 1 | 0.3% |
| FOIA, adran 38 – Iechyd a diogelwch | 5 | 1.7% |
| FOIA, adran 40 – Gwybodaeth bersonol | 74 | 25.5% |
| FOIA, adran 41 – Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol | 6 | 2.1% |
| FOIA, adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 4 | 1.4% |
| FOIA, adran 43 – Buddiannau masnachol | 23 | 7.9% |
| **Cyfanswm** | **290** | **100%** |